

Hen stampiau

Rydym yn dal i gasglu hen stampiau yn Capel Coch. Rhwch nhw yn y boc yng nghyntedd y capel os gwelwch yn dda.

Diolchgarwch

Yng Ngwasanaeth Diolchgarwch y plant yn Capel Coch fore Sul nesaf byddwn yn derbyn bwydydd i'w rhoi i Fanc Bwyd Caernarfon a'r Cylch. Rydym yn cefnogi gwaith y Banc Bwyd trwy'r flwyddyn, ac mae Gŵyl y Diolchgarwch yn rhoi cyfle arbennig i ni wneud hynny.

70 mlynedd

Yn Bwrlwm yng Nghapel Bethlehem, Talybont ddydd Iau llongyfarchwyd dau o aelodau'r eglwys, Llew ac Enfys Jones, ar ddatlu 70 mlynedd o fywyd priodasol ddoe, Medi 6. Cafwyd cacen a phaned ac yr oedd yn braf cael dathlu a llawenau gyda hwy. Dymuniadau gorau a phob bendith i chi'ch dau.

Bore Hwyl

Diolch yn fawr i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd yn y Bore Hwyl yn Capel Coch ddoe. Daeth criw mawr o blant a'u rhieni yno, a chafwyd dwy awr o chwarae hwyliog, a phawb wrth eu bodd efô'r castell bownsio a'r paentio wynebau a'r gwaith crefft. Diolch yn arbennig i Susan am y syniad ac am drefnu'r cyfan. Mae

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 14

5.00 p.m. - John Roberts, Llanfairpwll

Hydref 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 28

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

yna luniau o'r Bore Hwyl ar dudalennau Facebook Capel Coch neu Cynllun Efe ac ar wefan Cynllun Efe.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 14: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Hydref 9: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 14: Gwasanaeth Diolchgarwch plant yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Nos Wener, Hydref 12: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 14: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac Oedfa Ddiolchgarwch am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Sul, Hydref 14: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a Gwasanaeth Diolchgarwch yng ngofal yr Ysgol Sul a'r Gweinidog am 2.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 14: Nid oes oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 14

10.00 a.m. - Diolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 21

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Hydref 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
(a fydd hefyd yn Oedfa Fedydd)

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 769
07 Hydref, 2018
Gronyn

Gwynn Williams

Wythnos i heddiw, bu farw'r Parchedig Gwynn Williams, Caerdydd. Bu Gwynn yn dioddef o'r cancr ers bron i dair blynedd. Y diwrnod y clywais am ei farwolaeth, digwyddais ddarllen erthygl yn rhifyn diweddaraf *Y Faner Newydd* sy'n sôn am ei frwydr yn erbyn yr afiechyd creulon.

Mae'n bosibl fod Gwynn Williams yn ddieithr i lawer yn yr ardal hon gan mai yn Port Talbot a Chaerdydd y bu'n gweinidogaethu. Ond teithiodd i bob cwr o'r wlad i bregethu ac annerch mewn gwyliau a chynadleddau. Cefais y fraint o'i glywed lawer gwaith. Ond er mor gyfoethog y pregethu ac er mor eglur y cymhwyso ar bob achlysur, yr hyn a gofiai yn fwy na dim yw'r tro cyntaf erioed i mi ei glywed, bron i 45 o flynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Mi wnes i gyfeirio'n fyr at y noson honno yn *Gronyn* yn gynharach eleni.

A bod yn fanwl gywir, fe ddylwn ddweud "yr ail dro i mi ei glywed". Cawsai Gwynn wahoddiad i Fangor i annerch y myfyrwr. Trefnwyd dau gyfarfod ar ei gyfer. Daeth nifer dda i'r cyfarfod cyntaf. Y cof sydd gen i o'r cyfarfod hwnnw yw bod Gwynn wedi dweud rhywbeth am Dduw! Aeth y cyfan a ddywedodd y noson honno'n angof i mi. Yr unig beth a gofiai yw bod yr hyn a glywais yn ddigon i wneud i mi benderfynu mynd i'r ail gyfarfod a gynhelid y noson ganlynol.

Am ryw reswm, roedd llai o lawer yn yr ail gyfarfod. Gallaf gofio hynny, ond

PWY YW IESU GRIST ?

Gwynn Williams

gallaf hefyd gofio'r neges. "Pwy yw Iesu Grist?" oedd cwestiwn Gwynn i ni'r noson honno. Soniodd am yr hyn a ddywedodd Iesu Grist amdano'i hun, gan roi sylw arbennig i'w honiadau am ei berthynas â Duw a'i gyfeiriadau mynych at ei waith a'i farwolaeth a'i atgyfodiad. Mynnai Gwynn fod Iesu Grist un ai'n dweud y gwir neu'n dweud celwydd. Os oedd yn dweud celwydd, roedd un ai'n dwyllwr neu'n wallgofyddyn gan iddo wneud honiadau mor fawr. Ar ddiwedd ei anerchiad, mi wnaeth Gwynn ein herio i gredu yn y Crist hwnnw ac i roi ein bywyd iddo os oedd yr hyn a ddywedai amdano'i hun yn wir. Ond os mai celwydd oedd y cyfan mi allem, meddai Gwynn, fynd adref a llosgi pob Beibl a llyfr emynau gan mai llyfrau llawn 'celwyddau' a fyddai'r rheiny wedyn.

Fedraf fi ddim dweud yn union beth a ddigwyddodd i mi'r noson honno. Wn i ddim ai dyna pryd y deuthum i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist ynteu ai dyna ddechrau'r daith at ffydd. Ond mi wn i mi, wedi gwrandao ar neges Gwynn Williams, ddod yn gwbl sicr fod y cyfan a ddarllenwn am Iesu Grist yn Y Beibl yn wir, a bod yr Iesu hwn yn gwbl deilwng o'm hymddiriedaeth ac o'm cariad. Mi fum, yr wyf, ac mi fyddaf yn dragwyddol ddiolchgar fod Duw wedi defnyddio Gwynn Williams i'm hargyhoeddi o hynny. A Duw ei hun a wŷr am yr holl bobl eraill a all ddweud rhywbeth tebyg wedi iddynt hwythau gael yr un fraint o fod o dan ei weinidogaeth ffyddlon.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnyswaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams a bydd yr oedfa am 5.00 o'r goch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gwenda Richards.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Ar ddydd cyntaf wythnos newydd arall, gweddiwn dros ein gilydd a thros waith yr Arglwydd. "Dduw Dad, yn dy gariad mawr gwarchod drosom a galluoga ni i wynebu pob diwrnod gan ymddiried yn

Balm o Salm



'Ni wnaeth â ni yn ôl ein pechodau, ac ni thalodd i **BYW Y BEIBL** ni yn ôl ein camweddau. Oherwydd fel y mae'r nefoedd uwchben y ddaear, y mae ei gariad ef dros y rhai sy'n ei ofni; cyn belled ag y mae'r dwyrain o'r gorllewin y pellhaodd ein pechodau oddi wrthym. Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant, felly y tosturia'r ARGLWYDD wrth y rhai sy'n ei ofni ... Ond y mae ffyddlondeb yr ARGLWYDD o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb ar y rhai sy'n ei ofni, a'i gyfiawnder i blant eu blant, i'r rhai sy'n cadw ei gyfamod, yn cofio'i orchmynion ac yn ufuddhau' (Salm 103:10-13, 17-18).

dy ofal tyner amdanom. Rho i ni nerth bob dydd i blygu i'th ewyllys. Ac yn dy drugaredd, llwydda waith dy Eglwys yn ein plith, yn ein pentrefi a'n gwlad a thrwy'r byd i gyd."

Cymdeithas Llanberis

Cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch yn y Gymdeithas Undebol yn Llanberis nos Fawrth ddiwethaf. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran.

Cwrs Ieuenctid

Yng Ngholeg y Bala

Nos Wener – Dydd Sul
Tachwedd 2-4

Manylion pellach
i'w cael gan
y Gweinidog

Cydymdeimlo

Estynnwn gydymdeimlad i Mrs Glenys Jones, Adwy'r Nant, Bethesda yn ei phroffedigaeth o golli mab yn annisgwyl.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Ernie Jones, Porth y Gogledd, Deiniolen sydd wedi colli brawd.

A chydymdeimlwn hefyd â Robin ac Eryl Jones, Stryd y Ffynnon, Llanberis sydd wedi colli brawd yng nghyfraith.

Diolch ymlaen llaw am bob cyfraniad.

Cyfarfod Trwyddedu

Cynhelir Cyfarfod Trwyddedu'r Parchg Carol Roberts, a oedd yn gwasanaethu'r Eglwys yng Nghymru yn Nyffryn Peris hyd yn gynharach eleni, yn Rheithor y Bala yn Eglwys Crist, Y Bala am 3.30 o'r gloch y Sul nesaf, dydd Sul, Hydref 14. Mae croeso i unrhyw un i fynd yno.

Coffad

Mrs Doris Roberts

Bu farw Mrs Doris Roberts, Fron Oleu, Llanberis yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ddydd Llun, Mawrth 26, yn 87 mlwydd oed.

Gwasanaethwyd yn ei hangladd yn Capel Coch ac ym Mynwent Nant Peris ddydd Mercher, Ebrill 4 gan y Parchg Marcus Robinson, Bethel. Diolch yn fawr iawn iddo am ei gymorth a'i wasanaeth parod.

Bu Mrs Roberts yn aelod o'r eglwys yn Capel Coch ar hyd y blynyddoedd, ac fe'i cofir gan lawer fel cymdoges a chyfaill cywir. Cafodd sawl ergyd greulon ers iddi golli ei phriod Gwilym, yn cynwys ei mab Alan a'i hwyrion Darren a Jody.

Cydymdeimlwn â'i mab Elwyn a'r teulu yn eu colled.

Cynllun Efe

Oedfa Gomisiynu

Susan Williams

yn Weithiwr

Plant, Ieuenctid a Theuluoedd
Cynllun Efe, Caersalem Caernarfon a
Scripture Union Cymru

yng

Nghanolfan y Capel, Caethro
am 7.00 o'r gloch
nos Iau, Hydref 18

Hwn fydd Cyfarfod Blynyddol
Cynllun Efe am eleni hefyd

Croeso cynnes i bawb



Cynllun Efe

Mae Capel Coch yn falch o allu cefnogi gwaith Cynllun Efe. Rydym wedi gwneud hynny ers sefydlu'r elusen. Mae aelodau'r eglwys wedi gwasanaethu ar bwyllgorau Efe, wedi cynnal ei gyfarfod gweddi, ac wedi cyfrannu'n ariannol am ein bod wedi credu o'r cychwyn fod y gwaith yn werthfawr ac yn gymorth fawr i genhadaeth yr eglwys.

Bwriadwn barhau'r gefnogaeth dros y flwyddyn nesaf trwy gyfrannu arian at waith Efe. Os oes unrhyw un o aelodau Capel Coch yn dymuno cyfrannu at waith Efe a wnech chi roi eich cyfraniad mewn amlen, â'i anfon at Drysorydd Capel Coch, Mr Colin Jones.